

# Covid-19

## Canllawiau i gymunedau

### Gwynedd

**Mae Cyngor Gwynedd a Mantell Gwynedd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cynnig canllawiau i gymunedau sydd eisiau dod at ei gilydd i gynnig cefnogaeth yn ystod y cyfnod yma. Mae'r pecyn yma yn cynnig enghreifftiau o adnoddau ar gyfer grwpiau Cymunedol.**

**\*Hoffwn estyn ein diolch i gydweithwyr yn Medrwn Môn a Chyngor Môn i gynhyrchu'r canllaw hwn.**

## **Cefnogaeth i Wirfoddolwyr a Grwpiau Cymunedol.**

O ganlyniad i sefyllfa Covid-19, mae grwpiau o wirfoddolwyr wrthi'n datblygu ledled y sir er mwyn cynnig cymorth a chefnogaeth.

Mae rhestr o'r cymorth sydd ar gael i chi trwy wirfoddolwyr a grwpiau lleol ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd (cyfeirlyfr)

[www.gwynedd.llyw.cymru](http://www.gwynedd.llyw.cymru)

Nod y grwpiau yma yw cynnig cefnogaeth gyda bwyd a diod, neu anghenion glanweithdra unigolion os bydd rhaid iddynt hunan-ynysu. Bydd argaeledd aelodau'r grwpiau cefnogi yn amrywio, felly dylid cymryd i ystyriaeth efallai na fyddent yn gallu ymateb ar unwaith.

### **Gwirfoddoli**

Os byddwch mewn sefyllfa i helpu eraill ac os yw'n ddiogel i chi wneud hynny, cysylltwch gallwch gofrestru gyda banc gwirfoddolwyr - coronafirws, trwy Ganolfan Gwirfoddoli Gwynedd, Mantell Gwynedd.

Dilynwch y linc sydd ar wefan Mantell Gwynedd [www.mantellgwynedd.com](http://www.mantellgwynedd.com)

Neu ffonio 01286 672 626    [Gwirfoddoli@mantellgwynedd.com](mailto:Gwirfoddoli@mantellgwynedd.com)

## **Arweiniad cyfredol y Llywodraeth Cymru**

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod gweithgarwch gwirfoddol yn mynd i fod yn hanfodol wrth ymateb i'r firws corona.

Mae gwirfoddoli i gynorthwyo yn golygu y bydd angen i chi adael eich cartref. Os ydych yn iach yna mi allwch ymgymryd â thasgau megis:

- Cyflawni bwyd
- Cynorthwyo pobl gydag anghenion meddygol
- Sicrhau bod pobl fregus eich cymuned yn saff ac yn gyfforddus

Am arweiniad llawn, gallwch ddilyn y linc isod:

<https://llyw.cymru/iach-a-diogel?>

## **Eich Diogelwch**

Os gwelwch yn dda, dilynwch y canllawiau iechyd perthnasol. Byddwch yn ymwybodol y bydd nifer o bobl y byddwch chi'n ei helpu wedi cael eu heintio a bod risg gwirioneddol. Peidiwch â mynd mewn i eiddo unrhyw gleient. Ni ddylech gael unrhyw gyswllt corfforol gyda'r cleient, ac os byddwch yn cyffwrdd unrhyw beth sydd wedi cael ei gyffwrdd gan y cleient, golchwch neu diheintiwch eich dwylo cyn cyffwrdd unrhyw beth arall. Gadewch unrhyw nwyddau ar garreg drws a rhoi unrhyw beth sy'n cael ei roi i chi mewn bag plastig glân.

Dilynwch y linc isod i gael mwy o wybodaeth am sut i warchod eich hun ac eraill:

<https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/self-isolation-advice/>

### **Ymuno a chynllun cyfaill sy'n bodoli yn barod**

Mae nifer fawr o gynlluniau wedi ei ffurfio ar draws Gwynedd. Gweler y cyfeirlyfr er mwyn gweld os oes un yn eich ardal chi.

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Argyfwng/Help-i-bobl-a-chymunedau.aspx>

Os nad oes darpariaeth yn eich ardal chi yna efallai byddwch yn cysidro cychwyn grŵp er mwyn llenwi'r bwlch yn eich cymuned a sicrhau bod cefnogaeth ar gael i'r trigolion bregus.

### **Dechrau cynllun cyfaill newydd yn eich cymuned**

Os hoffech gychwyn rhwydwaith neu grŵp sy'n cynnig cefnogaeth i'ch cymuned ac angen arweiniad ar sut i wneud hyn, yna gallwch gysylltu gyda Thîm Cefnogi Cymunedau Gwynedd.

Rheolwr Gwasanaethau Cefnogi Cymunedau

[lindseyellisedwards@gwynedd.llyw.cymru](mailto:lindseyellisedwards@gwynedd.llyw.cymru) 01286 679 164

Swyddog Cefnogi Cymunedau Ogwen 01248 605 276

[dafydddeinionjones@gwynedd.llyw.cymru](mailto:dafydddeinionjones@gwynedd.llyw.cymru)

Swyddog Cefnogi Cymunedau Gwyrffai 01286 882 968

[rhianelingearge@gwynedd.llyw.cymru](mailto:rhianelingearge@gwynedd.llyw.cymru)

Swyddog Cefnogi Cymunedau Dwyfor 01758 704 120

[alyslloydjones@gwynedd.llyw.cymru](mailto:alyslloydjones@gwynedd.llyw.cymru)

Swyddog Cefnogi Cymunedau Meirionnydd 01341 424 504

[gwenelunedevans@gwynedd.llyw.cymru](mailto:gwenelunedevans@gwynedd.llyw.cymru)

### **Gwasanaeth**

- Dylid trefnu ymlaen llaw gyda'r buddiolwr bob amser a dylid bod a ffordd glir o gadarnhau pwy ydi'r gwirfoddolwr wrth gyfathrebu hefo'r buddiolwr
- Defnyddiwch eich doethineb, os yw'r dasg yn ymddangos yn afresymol, anniogel neu yn ormod mae gennych hawl gwrthod

## Trafnidiaeth

Gwiriwch fod eich yswiriant cerbyd yn sicrhau gwaith gwirfoddol. Nid oes unrhyw yswiriant ychwanegol wedi cael ei drefnu ac mae polisïau yn amrywio.

## Gofal gydag arian

Un o'r prif bryderon fydd sut mae cael cyflenwadau i gartrefi i bobl sy'n ynysu. Mae angen talu am y nwyddau hyn. Dylid ceisio osgoi cyfnewid arian parod os yn bosib er mwyn lleihau cyfleoedd i ddwyn a lleihau siawns o bobl yn cael eu heintio.

Gellir gwneud taliadau trwy systemau bancio electronig, taliadau dros y ffon ac ar lein. Mae nifer o siopau bach lleol yn derbyn taliad gyda cherdyn dros y ffon.

Er mwyn creu tystiolaeth o bryniant, costau a danfon, gall y gwirfoddolwr ddefnyddio ei ffon symudol i dynnu llun o'r nwyddau a thaleb a'i anfon i'r buddiolwr. Os yw'r buddiolwr yn ddryslyd neu ddim yn defnyddio ffon, gellid gofyn iddynt enwebu rhywun o'r teulu er mwyn er mwyn sicrhau tryloywder.

Gellid cael un Cydlynnydd Gwirfoddoli yn cymryd y taliad dros system PayPal dros ffon gan y buddiolwr ac yna yn trosglwyddo'r arian i'r gwirfoddolwr sydd wedi cyflawni'r dasg.

Ni ddylid gwneud unrhyw dasg sy'n rhoi'r gwirfoddolwr na'r buddiolwr mewn sefyllfa anghyfforddus megis tynnu arian o dwll yn wal banc neu godi pensiwn ayyb.

Yn ychwanegol, nid yw'n arfer da i wirfoddolwr dderbyn rhodd bersonol a gynigir iddynt gan unrhyw un y maent yn siopa ar eu cyfer.

## Gofalu am wybodaeth pobl

Byddwch yn amlwg yn derbyn ac yn rhannu gwybodaeth bersonol a sensitif am bobl er mwyn eu helpu yn ystod yr argyfwng.

Tydi rheolau diogelu data ddim yn eich atal rhag gwneud hyn ond mae angen cadw'r canlynol mewn cof:

- Bod trigolion yn gwybod sut byddwch yn defnyddio eu gwybodaeth
- Bod gennych reswm digonol dros drin eu gwybodaeth (eu caniatâd, bod risg i'w iechyd neu eu diogelwch neu i arbed bywyd)
- Dylech gymryd gofal arbennig os ydych yn trin gwybodaeth sensitif fel cofnodion iechyd, hil, ethnigrwydd neu grefydd.
- Cofiwch gadw'r wybodaeth yn ddiogel pan nad ydych yn ei defnyddio – e.e. cadw eich gliniadur/USB/gwaith papur mewn cwpwrdd dan glo.
- Rhannu gwybodaeth yn ddiogel – cofiwch wirio cyfeiriadau ebost/rhoi cyfrinair ar ddogfennau.
- Gwnewch gopi wrth gefn o unrhyw wybodaeth bwysig - mae cyfleusterau storio ar-lein ar gael neu defnyddiwch USB ar wahân
- Dim ond casglu'r lleiafswm sydd ei angen

- Pan fo'r argyfwng drosodd, sicrhewch eich bod chi a'ch gwirfoddolwyr yn dinistrio'r wybodaeth yn ddiogel os nad oes ei hangen mwyach
- Ceisiwch gadw cofnod o unrhyw benderfyniadau rydych wedi eu gwneud

### Gwiriadau DBS

Does dim gofyn cyfreithiol i gael gwirfoddolwyr wedi cael gwiriad DBS. Nid yw'r rhan fwyaf o'r tasgau y bydd gwirfoddolwyr yn eu cyflawni yn codi materion diogelu. Gellir cael mwy o wybodaeth am ba rolau fyddai angen gwiriad DBS trwy ddilyn y linc isod:

<https://www.gov.uk/government/publications/dbs-check-eligible-positions-guidance>

### Ymarfer da

Os yw'r drefn o siopa i bob unigolyn/ty yn mynd yn feichus ar wirfoddolwyr, gallech ystyried gwneud bocs neges hanfodion safonol gwerth £10 neu £20. Byddai hyn yn gwneud derbyn taliad yn haws hefyd.

Mae'n debygol nad oes gan nifer o oedolion bregus sydd angen cymorth fynediad i rwydweithiau cymdeithasol. Byddai ffleiar trwy'r blwch post gyda rhif ffon uniongyrchol yn fwy defnyddiol.

Mae grwp Whats app ar gyfer grwpiau gwirfoddolwyr yn ffordd dda o allu sicrhau bod tasgau yn cael eu cyflawni a bod posib cyfathrebu yn rheolaidd er mwyn gallu blaenoriaethu a trafod materion sy'n codi

EsiampI o Aseiad Risg fydd efallai yn ddefnyddiol i grwpiau

| Tasg/ ardal i'w asesu/<br>Task/area to be assessed: COVID 19 – COMMUNITY GROUP / GRWP CYMUNEDOL  |  |   |  |                             |                         | Dyddiad Adolygu/Review Date:<br>.....   |  | Lleoliad/<br>Location VARIOUS LOCATIONS |                         |   |                             |
|--|--|---|--|-----------------------------|-------------------------|---|--|---|-------------------------|---|-----------------------------|
| Swyddog Asesu/<br>Assessing Officer  | Dyddiad/Date:<br>.....   | Dyddiad Adolygu/Review Date:<br>.....   | Lleoliad/<br>Location                    | Dyddiad Terfyn/<br>Deadline |                         | Gweithrediad gan<br>Bwy/ Action By Whom   |  |   |                         |   |                             |
| Peryglon Sylweddol/<br>Significant Hazards   | Pwy sy'n gallu cael eu brifo a sut?<br>Who might be harmed & how?            | Sut mae'r risg yn cael ei reoli ar hyn o bryd? How is the risk currently controlled?  | Lefel Risg Dechreuol/ Initial Risk Level |                             |                         | Pa gweithrediad sydd angen i lleihau y risg ymhellach?<br>What action is required to further reduce the risk? | Lefelau risg gweddilliol ar ôl systemau rheolaeth? Residual risk level after controls? |   |                         | Gweithrediad gan<br>Bwy/ Action By Whom | Dyddiad Terfyn/<br>Deadline |
|  |  |   | Tebygoliaeth Likelihood                  | Llymder Severity            | Lefel o Risg Risk Level |   | Tebygoliaeth Likelihood  | Llymder Severity                        | Lefel o Risg Risk Level |   |                             |
| Mae coronafirws yn glefyd firaol a all achosi peswch, twymyn ac anhawster anadlu. Gall fod yn fwy difrifol mewn pobl hŷn, y rhai â systemau imiwnedd gwan a rhai cyflyrau tymor hir fel diabetes neu ganser.<br><br>Bydd timau ymateb cymunedol yn danfon eitemau hanfodol i'r rhai sydd ar eu pennau eu hunain. | Pobl hŷn a'r rhai â chyflyrau iechyd sylfaenol a fydd ar eu pennau eu hunain | Mae'r holl wirfoddolwyr wedi cael cyfarwyddyd clir i:<br>• Osgoi unrhyw gyswllt corfforol ag unrhyw un sydd ar ei ben ei hun. | 2  | 3                           | 6                       |   |  |   |                         |   |                             |

|   |  |   |  |  |  |  |  |  |  |  |  |  |
|---|--|---|--|--|--|--|--|--|--|--|--|--|
| <p><b><u>Halogiad</u></b><br/><b><u>(Contamination)</u></b></p> |  | <p>Bydd yr holl gyflenwadau a ddosberthir yn cael eu gadael ar stepen y drws</p> <p>Bydd menig yn cael eu gwisgo wrth guro ar y drws neu ganu cloch y drws.</p> <p>Cofiwch efallai na fydd rhai pobl yn clywed rhywun yn curo'r drws.</p> <p>Mae angen cael gwared â menig ar ôl pob ymweliad wrth guro drysau neu ganu clychau drws.</p> <p>Cariwch fag plastig yn y cerbyd i gael gwared ar unrhyw fenig a ddefnyddir</p> <p>Gwneir trafodion arian naill ai trwy drosglwyddiadau banc neu arian parod, y dull a ffafrir byddai trosglwyddo banc.</p> |  |  |  | <p>Os yw pobl yn agor y drws tra'ch bod chi'n danfon rhaid i chi ofyn iddyn nhw gau'r drws yn garedig nes eich bod chi wedi gadael ac mewn pellter diogel i ffwrdd oddi wrthyn nhw.</p> <p>Gwirfoddolwyr i wirio yn weledol bod pobl wedi mynd â'r cyflenwadau i'r tŷ.</p> |  |  |  |  |  |  |
|---|--|---|--|--|--|--|--|--|--|--|--|--|

Os defnyddir arian parod dylid defnyddio bagiau banc plastig i roi unrhyw newid yn ôl gellir ei bostio trwy'r blwch llythyrau wrth eu danfon.

**Salwch**

Gwirfoddolwyr i gysylltu â'u cydlynnydd ar unwaith os ydyn nhw'n teimlo'n sâl ac yn bwriadu hunan ynysu os ydyn nhw'n dangos symptomau covid 19



|  |  |   |  |  |   |  |  |  |  |  |
|--|--|---|--|--|---|--|--|--|--|--|
| <p><b><u>GWEITHIO AR BEN EICH HUN</u></b></p> <p>Bydd gwirfoddolwyr yn gweithio ar eu pennau eu hunain wrth ddsbarthu cyflenwadau brys i'r rhai sydd ar eu pennau eu hunain.</p> | <p>Perygl o afiechyd mewn ardaloedd ynysig</p> <p>Digwyddiadau traffig ar y ffyrdd</p> <p>Cerbydau yn torri lawr</p> | <p>Mae gan bob gwirfoddolwr ddefnydd o'i ffôn symudol ei hun</p> <p>Cyflwyno system cyfeillion sydd yn gweithio yn unigol ond yn cefnogi ei gilydd mewn parau sydd yn cysylltu â'i gilydd yn aml.</p> |  |  | <p>Cynghori gwirfoddolwyr i gadarnhau presenoldeb ar ddechrau'r shifft a chadarnhau pryd maen nhw wedi gorffen am y diwrnod trwy neges destun i'r cydlynnydd</p> <p>Sicrhewch fod gan y cydlynnydd fynediad i'r holl rifau ffôn symudol.</p> <p>Cydlynnydd i fabwysiadu'r gofrestr presenoldeb gwirfoddolwyr, i fewngofnodi ac allan pryd</p> |  |  |  |  |  |
| <p><b><u>OFFER DIOGELU PERSONOL</u></b></p>  |  | <p>Menig tafladwy</p>   |  |  | <p>'Sanitiser' dwylo neu 'wet wipes' os yw ar gael.</p> <p>Pecynnau cymorth cyntaf personol os ydynt ar gael</p>  |  |  |  |  |  |

## **Llythyr Enghreifftiol i'w bostio i gartrefi.**

Annwyl Gyfaill,

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r byd yn wynebu argyfwng pandemig ar hyn o bryd. Ein rôl ni yw i'ch helpu, fel yr angen. Gan fod nifer o'n trigolion lleol naill ai'n oedrannus a / neu'n fregus i'r firws, rydym am roi cynllun mewn lle i geisio cadw pawb mewn cysylltiad, gyda chyflenwad o fwyd ac anghenion, neu, fod rhywun ar gael ar ben arall y ffôn am sgwrs gyfeillgar.

Os ydych chi'n dangos unrhyw arwyddion neu symptomau o'r firws, cofiwch ddilyn cyngor cyfredol y Llywodraeth i hunan-ynysu chi a'ch teulu a dilyn cyngor meddygol arbenigol ar wefan [www.nhsdirect.wales.nhs.uk/COVID19/](http://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/COVID19/)

Isod mae rhestr o enwau a rhifau ffôn gwirfoddolwyr lleol, yn ogystal â pha ardal neu feysydd o gymorth y bydd yr unigolion yn eu cynnig.

Os oes angen unrhyw siopa neu unrhyw fath o gyflenwad arnoch, mae croeso i chi ffonio'r person perthnasol. Cofiwch, os na fydd yr alwad yn eich cysylltu y tro cyntaf, mae'n bosib bod y person hwnnw'n delio ag unigolyn arall, felly gadewch eich enw a'ch rhif ffôn a byddwn yn dychwelyd eich galwad cyn gynted ag y gallwn.

Dylid cynnwys enwau, rhifau ac ardaloedd / meysydd yma.

### **Ymwadiad:**

Rhwydwaith cymorth yw hwn ar gyfer pobl sy'n trefnu yn eu cymunedau. Nid yw grwpiau cymorth lleol yn uniongyrchol gysylltiedig â Covid-19 Mutual Aid UK ac nid ydym yn atebol am eu gweithgareddau.

**SYLWCH:** Mae'r grŵp hwn yn cael ei redeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr ac nid gweithwyr meddygol proffesiynol. Rydyn ni i gyd yn aelodau a grwpiau o'r gymuned eisiau cefnogi'r rhai mwyaf bregus gyda negeseuon, dosbarthu gwybodaeth a chysur emosiynol.

### **Mae templed gallwch ei ddefnyddio isod**

| <b>ENW'R<br/>GWIRFODDOLWR</b>                | <b>RHIF FFÔN</b>                                   | <b>Stryd / Pentref<br/>/Ardal</b> |
|--|--|-----------------------------------|
| <b>ENWAU<br/>GWIRFODDOLWYR<br/>LLEOL YMA</b> | <b>RHIFAU FFÔN<br/>GWIRFODDOLWYR LLEOL<br/>YMA</b> | <b>ARDALOEDD</b>                  |

## **Cardiau Post i gartrefi**

Mae cardiau post syml ar gael (**Tudalen 3**) ac maent wedi profi yn ddefnyddiol iawn.

Gallwch hefyd anfon un o'r cardiau drwy flwch post cymydog/ffrind i gynnig eich cefnogaeth os bydd yr unigolyn angen y cymorth hwnnw. Dilynwch y cyfarwyddiadau a roddir ar waelod y cerdyn post, sydd wedi ei atgyfnerthu isod.

*'Mae coronafeirws yn heintus. Cymerwch bob gofal i sicrhau mai dim ond caredigrwydd rydych yn lledaenu. Dylid osgoi cyswllt corfforol (pellter 2m). Golchwch eich dwylo yn rheolaidd. Dylid gadael eitemau ar garreg eich drws.'*

# HELLO! HELLO!

Os yn hunan-ynysu, rwyf yn gallu helpu.  
If you are self-isolating, I can help.

Fy enw yw

My name is .....

Rwyf yn byw yn

I live locally at .....

Fy rhif ffôn yw

My phone number is .....

Os yn hunan-ynysu oherwydd COVID-19, rwyf yn gallu helpu gyda:  
If you are self-isolating due to COVID-19 I can help with:

Nôl eich siopa  
Picking up the shopping

Postio  
Posting mail

Sgwrs ar y ffôn  
A friendly phone call

Cyflenwadau brys  
Urgent supplies

Ffoniwch/anfonwch neges destun ataf a byddaf yn gwneud fy ngorau i'ch helpu (am ddim!)  
Just call or text me and I'll do my best to help you (for free!)

Mae coronafeirws yn heintus. Cymerwch bob gofal i sicrhau mai dim ond caredigrwydd rydych yn lledaenu.  
Dylid osgoi cyswllt corfforol (pellter 2m). Goichwch eich dwylo yn rheolaidd. Dylid gadael eitemau ar garreg  
eich drws.

Coronavirus is contagious. Please take every precaution to ensure you are spreading only kindness. Avoid  
physical contact (2m distance). Wash your hands regularly. Items should be left on your doorstep.

# HELLO! HELLO!

Os yn hunan-ynysu, rwyf yn gallu helpu.  
If you are self-isolating, I can help.

Fy enw yw

My name is .....

Rwyf yn byw yn

I live locally at .....

Fy rhif ffôn yw

My phone number is .....

Os yn hunan-ynysu oherwydd COVID-19, rwyf yn gallu helpu gyda:  
If you are self-isolating due to COVID-19 I can help with:

Nôl eich siopa  
Picking up the shopping

Postio  
Posting mail

Sgwrs ar y ffôn  
A friendly phone call

Cyflenwadau brys  
Urgent supplies

Ffoniwch/anfonwch neges destun ataf a byddaf yn gwneud fy ngorau i'ch helpu (am ddim!)  
Just call or text me and I'll do my best to help you (for free!)

Mae coronafeirws yn heintus. Cymerwch bob gofal i sicrhau mai dim ond caredigrwydd rydych yn lledaenu.  
Dylid osgoi cyswllt corfforol (pellter 2m). Goichwch eich dwylo yn rheolaidd. Dylid gadael eitemau ar garreg  
eich drws.

Coronavirus is contagious. Please take every precaution to ensure you are spreading only kindness. Avoid  
physical contact (2m distance). Wash your hands regularly. Items should be left on your doorstep.

### **Manylion Cyswllt Defnyddiol**

Os ydych angen cefnogaeth i sefydlu ymdrech / grŵp cymunedol yn eich ardal plŷ cysylltwch gyda Thîm Cefnogi Cymunedau Gwynedd (rhifau uchod) neu drwy

**Galw Gwynedd: 01766 771000**

Os ydych yn dymuno gwirfoddoli neu yn chwilio am wirfoddolwyr plŷ cysylltwch gyda

**Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd: 01286 672 626**

**Mantell Gwynedd: [www.mantellgwynedd.org](http://www.mantellgwynedd.org)**

**Rhif ffôn: 01286 672 626**

**E-bost: [ymholiadau@mantellgwynedd.org](mailto:ymholiadau@mantellgwynedd.org)**